**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A THAI**
**15 IONAWR 2025**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 15 Ionawr 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Tina Claydon (Is-Gadeirydd yn Cadeirio)** Y Cynghorwyr: Pam Banks, Sean Bibby, Gillian Brockley, Geoff Collett, Rob Davies, Rosetta Dolphin, Kevin Rush, Dale Selvester ac Ant Turton |
| **DIRPRWYON:** | Y Cynghorydd Ian Roberts (ar ran Ted Palmer) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Marion Bateman |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Helen Brown (Aelod Cabinet Tai a Chymunedau); y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol); y Cynghorydd Richard Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Trawsnewid ac Asedau); Prif Swyddog (Tai a Chymunedau); Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Asedau a Rheolwr Gwasanaeth - Tai, Lles a Chymunedau<br><br>Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth Gynllunio a Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Cofnod Rhif 53<br><br>Ymgynghorydd Perfformiad Strategol ar gyfer Cofnod Rhif 55<br><br>Rheolwr Rhaglen Tai a Chyflenwi Strategol; Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Tai ac Atal a Rheolwr Busnes ar gyfer Cofnod Rhif 56. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

## 49. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 50. COFNODION (Dolen i’r recordiad)

Amlygodd y Cynghorydd Sean Bibby wall ar dudalen 6 y cofnodion a bod angen newid ‘Nant Y Gro’ i ‘Nant Y Coed’.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad a restrir uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2024 fel cofnod cywir a gofyn i’r Cadeirydd eu llofnodi.

**51.** **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHRED** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu adroddiad (eitem rhif 4 ar y rhaglen) ar gyfer ystyried y Rhaglen Waith bresennol a'r cynnydd o ran Olrhain Camau Gweithredu.

Awgrymodd un newid, sef bod yr adroddiad ar Gyllideb Cronfa'r Cyngor 2025/26 yn cael ei ddwyn ymlaen a'i gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Chwefror.

**PENDERFYNWYD**:

(a) Nodi'r Rhaglen Waith;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

**52.** **SAFONAU ANSAWDD TAI CYMRU (SATC 2 2023) A'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DIFFYG ATGYWEIRIO TAI (HDR)** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) a'r Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Asedau adroddiad (eitem rhif 5 ar y rhaglen) i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r Safonau Ansawdd Tai Cymru newydd (SATC 2 2023), y safonau gosod eiddo gwag a rhwymedigaethau'r Cyngor mewn perthynas â chyflawni'r safonau newydd.

Cytunwyd y byddai copi o'r ohebiaeth i denantiaid ynglŷn â'r broses o adrodd am ddiffyg atgyweirio a'r risgiau i denantiaid wrth benodi cyfreithiwr ar sail 'dim llwyddiant/dim ffi' yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau er gwybodaeth a hefyd yn cael ei ychwanegu at dudalen cyfryngau cymdeithasol y Cyngor

Byddai'r argymhellion a'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD**:

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r rhaglen buddsoddi cyfalaf yng ngham nesaf ei chyflwyno wrth symud tuag at gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru a'r gofynion newydd wedi'u diweddaru; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwasanaeth Asedau Tai i barhau i reoli protocol Diffyg Atgyweirio Tai ar ran y Cyngor, gan sicrhau bod y rhwymedigaethau a roddir ar y Cyngor yn cael eu bodloni.

**53. DARPARU LLETY SAFLE TRAMWY AR GYFER Y GYMUNED SIPSIWN ROMA TEITHWYR YN SIR Y FFLINT (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) a'r Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth Gynllunio adroddiad (eitem rhif 6 ar y rhaglen) ar y cyd a oedd yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu safle tramwy priodol yn Sir y Fflint ac yn amlinellu rhai o'r heriau a'r ystyriaethau gofynnol i fodloni'r gofynion statudol yn awr ac yn y dyfodol.

Byddai'r argymhellion a'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer safle tramwy ar raddfa fach yn Sir y Fflint.

**54. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DLODI BWYD (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai, Lles a Chymunedau adroddiad (eitem rhif 7 ar y rhaglen) i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith presennol a chynlluniedig i ymateb i faes blaenoriaeth tlodi bwyd. Amlygodd yr adroddiad y rôl gadarnhaol yr oedd Sir y Fflint wedi ei chwarae wrth ddatblygu partneriaethau, cefnogi sefydliadau eraill a hwyluso gweithredu.

Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Brockley am restr o Ganolfannau Croeso Cynnes a Chanolbwyntiau Cymunedol ar draws y sir, cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth i ddosbarthu'r ddolen i wefan y Cyngor lle'r oedd y wybodaeth hon yn cael ei dangos a'i diweddaru i Aelodau'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

Byddai'r argymhellion a'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi cynnydd y gwaith mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi bwyd yn Sir y Fflint; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi defnyddio'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd er mwyn parhau i ddarparu'r rhaglen tlodi bwyd hyd at fis Mawrth 2026.

**55. COFRESTR RISGIAU GORFFORAETHOL (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol a'r Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) adroddiad (eitem rhif 8 ar y rhaglen) a oedd yn amlinellu'r broses o nodi ac asesu risgiau, gwerthuso eu canlyniad posibl, a'u lliniaru i sicrhau bod blaenoriaethau yn cael eu cyflawni. Y nod oedd lleihau difrifoldeb eu canlyniad a pha mor debygol ydyn nhw o ddigwydd pan fo modd.

Cytunwyd bod yr adborth canlynol gan y Pwyllgor yn cael ei basio ymlaen at y Tîm Perfformiad:-

- Dim ond risgiau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor y dylid eu cyflwyno mewn adroddiadau yn y dyfodol; a
- Bod y risg - RCF09 - Buddsoddiad Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai - yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Tai a Chymunedau a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol mewn adroddiadau yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod adroddiad Cofrestr Risgiau Gorfforaethol y Cyngor, yn enwedig y risg RHC09 – Adnoddau i Gwrdd â Rhwymedigaethau Digartrefedd, yn cael ei nodi; a

(b) Bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau ynglŷn â'r trefniadau ar waith i reoli risg RHC09 – Adnoddau i Gwrdd â Rhwymedigaethau Digartrefedd.

## 56. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR BERFFORMIAD CYNLLUN Y CYNGOR (2023-28) 2024/25 (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) adroddiad (eitem rhif 9 ar y rhaglen) a oedd yn darparu crynodeb o berfformiad cynnydd yn erbyn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a nodwyd ar gyfer 2024/25 ar ganol y flwyddyn (Chwarter 2). Roedd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar eithriadau ac yn canolbwyntio ar y meysydd perfformiad nad oedd yn cyflawni eu targedau ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawni'r blaenoriaethau oedd yng Nghynllun y Cyngor 2023/28 i'w cyflawni o fewn 2024/25;

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi perfformiad cyffredinol yn erbyn dangosyddion / mesurau perfformiad Cynllun y Cyngor 2024/25; a

(c) Bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd drwy'r eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd hynny sy'n tangyflawni.

## 57. RHEOLI CARTREFI GWAG (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Asedau y ffigyrau allweddol a'r gweithgareddau allweddol yn ôl y Cynllun Gweithredu ar Unedau Gwag, fel yr amlinellir yn y nodyn briffio (eitem rhif 10 ar y rhaglen).

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r diweddariad.

## 58. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.11pm)

……………………………………………

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai eu gwe-ddarlledu, ac mae modd eu gwylio drwy fynd i’r llyfrgell gwe-ddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home